| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Datblygu Cwestiynau |
| Disgrifiad: | Cyflwyniad i destun, darllen testun gyda sgiliau marcio testun a holi. |
| Blynyddoedd ysgol: | CA2 |
| Sgìl Rhaglen Astudio posib: | Llafaredd> Siarad / Gwrando / Cydweithio a thrafod |
| Testun T. Llew Jones | *Y Gelyn ar y Trên* |
| Offer angenrheidiol: | • Nofel *Y Gelyn ar y Trên*<br>• Templed Llaw Gwestiynau<br>• Sgwâr Casgliadau |
| Trefn a awgrymir: | • Rhannwch y gwaith o ddarllen y testun o'r dechrau hyd at waelod tud. 8.<br>• Mewn parau/grwpiau bychain, gall y dysgwyr ddefnyddio'r 'Llaw Gwestiynau' i gynhyrchu cwestiynau am y testun. Anogwch gwestiynau agored.<br>• Trafodwch y cwestiynau mewn grŵp/dosbarth mwy. Gan ddefnyddio lliw gwahanol, gall y dysgwyr nodi unrhyw syniadau sy'n cael eu mynegi i ateb rhai o'r cwestiynau. |
| Gweithgareddau gwahaniaethol: | Mewn grwpiau, gall y dysgwyr lunio cwestiynau ac atebion posib ar 'Sgwâr Casgliadau'.<br><br>Gellid defnyddio aps *Popplet* neu *Simple mind+* i ddangos y cwestiynau.<br><br>Gellid gwahaniaethu drwy gymhlethdod y cwestiynau a gynhyrchir. |